| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD:** | **16 RHAGFYR 2010** |
| **TEITL:** | **ADOLYGU'R POLISI TRWYDDEDU** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD J R JONES** |

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn unol a Deddf Trwyddedu 2003, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn adolygu'r Polisi Trwyddedu o leiaf pob 3 blynedd. Mabwysiadwyd y polisi gwreiddiol gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr, 2004 a mabwysiadwyd ef drachefn yn ei gyfarfod ar 13 Rhagfyr, 2007.

## 2. YMGYNGHORIAD

2.1 Ymgynghorwyd ar y Polisi drwy ei anfon at pob Cynghorydd a pob Cyngor Cymuned, ynghyd ac Asiantaethau a chyrff cyhoeddus perthnasol, megis Heddlu Gogledd Cymru; Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru; ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal, ymgynghorwyd gyda adrannau Cynllunio; Iechyd Amgylchedd (Amgylchedd); Iechyd a Diogelwch (Adain Bwyd a Iechyd a Diogelwch); Safonnau Masnach ac Addysg (Lles) a Gwasanaethau Cymdeithasol (Uned Plant) o fewn Cyngor Gwynedd. Ymgynghorwyd a hwyt ym mis Medi, yn gofyn am ymateb erbyn 15 Tachwedd, 2010, fel y gellid adrodd i'r Pwyllgor Trwyddedu a oedd wedi ei raglennu ar gyfer 22 Tachwedd, 2010. Yn anffodus, i'r perwyl yma, newidwyd dyddiad y cyfarfod yma ymlaen i 22 Hydref, 2010, gyda'r canlyniad i'r Pwyllgor Trwyddedu bryd hynny ystyried y Polisi, ond heb fedru ystyried unrhwy ymateb i'r ymgynghoriad.

2.2 Cymeradwywyd y Polisi gan y Pwyllgor Trwydded ar 22 Hydref, 2010, drwy roddi hawl i'r Rheolwr Trwyddedu mewn ymgynghoriad a Chadeirydd y Pwyllgor i addasu'r Polisi pe byddai angen. Derbyniwyd un ymateb oddiwrth Gynghorydd ac ymgorfforwyd eu sylwadau yng nghymal 5.10 ynghyd ag un Cyngor Cymuned, a ddatganodd eu bodlonrwydd gyda'r Polisi. Oddigerth i hynny, yr unig sylwadau a dderbyniwyd oedd rhai yn ymwneud a gwneud mân newidiadau megis cyfeiriadau neu gywirdeb o ran enwau cywir Deddfau a Rheoliadau newydd.

## 3. NEWIDIADAU O BOLISI 2007

3.1 Yn ei hanfod, does dim newidiadau sylfaenol i'r Polisi a fabwysiadwyd yn 2007. Noder isod y newidiadau sydd wedi eu hychwanegu i'r Polisi.

<u>Rhan 1.5 - Deddfau Perthnasol</u>

Ychwanegu

- Dan ddarpariaethau'r Comisiwn Ewropeaidd ar Iawnderau Dynol a weithredir gan Deddf Iawnderau Dynol 1988 fe osodir dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i amddiffyn hawliau'r unigolyn dan amgylchiadau amrywiol.
- Deddf Trosedd a Diogelwch 2010 ac atodlen 7 Deddf Plismona a Throsedd 2009
- Cyfarwyddyd Gwasanaeth yr Undeb Ewropeaidd – a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2009
- Adeiladau Difwg 2007

Nodiadau:- Pan fydd y gyfraith eisioes yn gosod rhwymedigaethau statudol ar yr ymgeiswyr ni fydd y Cyngor yn gosod yr un dyletswyddau neu rai tebyg fel amod ar drwydded yr eiddo, daliwr y drwydded neu'r clwb.

Rhan 4.8 - Diogelwch y Cyhoedd

Ychwanegu

- Cynghorir trefnwyr o ddigwyddiadau mawr, ble bwriedir cynnal gweithgareddau trwyddedig i gysylltu gyda Grwp Ymgynghori Gwynedd pan yn cynllunio'r digwyddiad yn y dechrau.

Rhan 5.10 - Rhwystro Niwsans Cyhoeddus

Ychwanegu

- Mae'r Uned Gorfodaeth Stryd yn rheoli glendid stryd ac o dan adran 93 o Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 mae hawl gan yr Uned i erlyn eiddo ble mae tystiolaeth bod blerwch, megis gweddillion bwyd neu sigaredau, ger yr eiddo yn bodoli cyn belled ac y gall dangos bod yr eiddo'n gyfrifol am y sbwriel.

Rhan 10.4 Ychwanegu - Deddf Trosedd a Diogelwch 2010

Yn newid Deddf Trwyddedu 2003 i ganiatau i awdurdodau lleol wneud gorchmynion yn cyfyngu gwerthu alcohol yn oriau man y bore, gan ddisodli unrhyw drwydded adeilad, tystysgrif clwb neu rybuddion digwyddiadau dros dro sy'n awdurdodi gwerthu alcohol rhwng 0300 ac 0600.

Rhan 11.5 –

Ychwanegu - Newidiadau i adlewyrchu'r amodau mandadol ychwanegol a ddaeth i rym yn Ebrill a Hydref 2010.

Rhan 11.12

Ychwanegu - Cymal 33 – Deddf Heddlu a Throsedd 2009 Mae'r newidiadau yn y cymal yma'n rhoddi hawl i unrhyw aelod etholedig o'r Cyngor weithredu fel partion sydd a diddordeb, gyda hawl i wneud sylwadau neu ofyn am adolygiad o unrhyw drwydded. Mae hyn yn ymestyn yr hawliau a fodolodd yn wreiddiol o dan y Ddeddf, ble dim ond partion a oedd yn byw yn y cyffiniau neu awdurdod cyfrifol oedd a'r hawliau yma yn y gorffennol.

Rhan 11.13

Ychwanegu - Rheoliadau Darparu Gwasanaeth 2009. Mae hyn yn cyfeirio i gyfarwyddyd Gwasanaeth yr Undeb Ewropeaidd, sy'n galluogi i unigolion ar draws Ewrop wneud cais electronig am nifer o wasanaethau'r Cyngor. Mae'r cymal yma'n adlewyrchu'r newidiadau o ran y ffordd y gellir cyflwyno cais am drwydded. Mae modd yn awr i wneud ceisiadau yn electronig.

3.2 Yn ychwanegol i'r newidiadau uchod, mae man newidiadau o ran rhifau ffôn a cyfeiriadau rhai o'r awdurdodau sydd angen cysylltu a hwynt wrth wneud cais.

**4. NEWIDIADAU I'R DYFODOL**

4.1 O nodi bod newidiadau posibl yn wynebu pawb yn y byd cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf, gofynnaf am hawl dirprwyedig y Cyngor i newid gwybodaeth fel cyfeiriad neu rif ffôn unrhyw wasanaeth neu awdurdod allanol a nodir yn y ddogfen.

**5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Bod y Cyngor yn mawbwysiadu'r Polisi newydd i gynnwys y newidiadau a nodir uchod.